QWCC1-001_16C

12 Mai 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Eglurhad ynglŷn ag Amodau Cydnabyddiaeth Safonol Cymwysterau Cymru - D9.1 a D9.2

Ysgrifennom atoch ar 29 Ebrill yn rhoi gwybod i chi am ddiwygiadau i Amodau Cydnabyddiaeth Safonol Cymwysterau Cymru. Roedd y diwygiadau'n cynnwys ychwanegu dau amod newydd, sef D9.1 a D9.2, yn ymwneud â dyfarnu cymwysterau Cymeradwy y tu allan i Gymru. Mae nifer o gyrff dyfarnu wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â chymhwyso'r amodau newydd hyn.

Mae amodau D9.1 a D9.2 **yn berthnasol i gymwysterau Cymeradwy yn unig**. Y cymwysterau a Gymeradwyir ar hyn o bryd gan Cymwysterau Cymru yw:

- TGAU a Safon Uwch diwygiedig
- Cymwysterau Bagloriaeth Cymru; a
- Chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Nid yw amodau D9.1 a D9.2 **yn berthnasol i gymwysterau Dynodedig na rheoleiddiedig arall**. Nid yw'n ofynnol i chi wneud unrhyw newidiadau i'ch templedi tystysgrif na'ch gweithdrefnau dyfarnu oni bai eich bod yn dyfarnu cymwysterau Cymeradwy y tu allan i Gymru.

Os oes angen eglurhad pellach arnoch ynglŷn â'r amodau hyn, cysylltwch â ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Yn gywir

Denver Davies
Uwch Reoleiddiwr Monitro a Chydymffurfio